Cygnor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014

## Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r adroddiad yn nodi manylion ein cynnydd, gan ddangos ein cyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf, a'r ffordd rydym yn bwriadu adeiladu arnynt yn 2015.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ein rôl ac yn cyflawni ein canlyniadau ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth i safon uchel. Mae ein cynllun gweithredu amcanion cydraddoldeb yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn nodi ein blaenoriaethau allweddol.

Rydym yn ddiolchgar i'r sawl a helpodd i ddatblygu ein cynllun gweithredu amcanion cydraddoldeb. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag eraill er mwyn helpu i lywio ein gweithgareddau cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth iddynt ddatblygu.

## Crynodeb gweithredol

1 Nod yr adroddiad hwn yw crynhoi ein cynnydd mewn perthynas â'n hamcanion cydraddoldeb.

2 Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fonitro am broffil ein gweithlu, achosion ac aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer, yn ogystal â nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr.

3 Yn ogystal â nodi ein cyflawniadau ar gyfer 2013 a 2014, mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## Cyflwyniad

4 Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ein prif ffocws yw diogelu cleifion a'r cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd yn effeithiol.

- Rydym yn pennu ac yn hyrwyddo safonau o ran addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad nyrsys a bydwragedd, gan gadw a diweddaru'r gofrestr o'r rheini sydd wedi cymhwyso ac sy'n cyrraedd y safonau hynny.

- Rydym yn rhoi arweiniad er mwyn helpu nyrsys a bydwragedd i gynnal a meithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn cynnal ein safonau proffesiynol.

- Mae gennym brosesau teg ac effeithiol ar gyfer cynnal ymchwiliadau ac ymdrin â nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn cyrraedd ein safonau. Drwy wneud hyn, rydym yn hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn nyrsys a bydwragedd ac yn y drefn reoleiddio.

## Ein dyletswyddau cyfreithiol

5 Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ar 1 Hydref 2010, gan ddisodli cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol a'u cyfuno i greu un ddeddf. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno mesurau newydd sy'n cael effaith uniongyrchol ar ein swyddogaethau ac yn sail i'r fframwaith cyfreithiol a ddilynwn. Mae'n llywio ein harferion fel cyflogwr, rheoleiddiwr, elusen a darparwr gwasanaeth.

6 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi naw grŵp cydraddoldeb, sef:

- oedran;
- anabledd;
- rhyw;
- ailbennu rhywedd;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- priodas a phartneriaeth sifil;
- hil;
- crefydd neu gred;
- cyfeiriadedd rhywiol.

7 O ran y naw grŵp cydraddoldeb hyn, mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- Dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl o grwpiau gwahanol.
- Meithrin cydberthnasau da rhwng pobl o grwpiau gwahanol.

## Amcanion cydraddoldeb

8 Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth i ddangos ein bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae ein cynllun gweithredu amcanion cydraddoldeb yn rhoi trosolwg o'r camau a gymerwn i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

9 Ein hamcanion cydraddoldeb yw:

- Cynnwys amrywiaeth - byddwn yn cynnwys amrywiaeth ymhellach wrth gyflawni ein swyddogaethau statudol.
- Arweinyddiaeth - bydd ein harweinwyr yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

- Llywodraethu - byddwn yn rhoi prosesau llywodraethu effeithiol ar waith i ategu'r gwaith o sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant.

- Staff - bydd ein staff yn gweithio mewn amgylchedd lle cânt eu trin ag urddas, tegwch a pharch.

- Darparu gwasanaethau - byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd sy'n berthnasol i anghenion cymuned amrywiol.

## Cyflawniadau allweddol

10 Ymhlith ein cyflawniadau allweddol mae:

- Datblygu a gweithredu ein pecyn dadansoddi cydraddoldeb. Gwneir hyn er mwyn nodi, lleihau a dileu'r effeithiau posibl ar grwpiau gwahanol o bobl ym mhob rhan o'n cylch datblygu polisïau a'n fframwaith rhaglenni.

- Cynnal dadansoddiad cydraddoldeb ar nifer o brosiectau a pholisïau allweddol, gan gynnwys recriwtio Cadeirydd y Cyngor; y polisi diogelu data diwygiedig; y polisi cyflogau ac adolygu graddfeydd staff a'r cynnig i ddefnyddio arholwyr achosion Addasrwydd i Ymarfer yn ystod ein gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer a'r profion cymhwyso dramor newydd.

- Diweddaru ein holiadur amrywiaeth fel cam cyntaf tuag at wella ansawdd data monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth.

- Adolygu aelodaeth ein grŵp llywio cydraddoldeb ac amrywiaeth a'i gylch gorchwyl.

- Gwella ein cyrsiau hyfforddiant ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer aelodau'r Cyngor ac aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer.

- Adolygu ein polisïau adnoddau dynol, gan gynnwys absenoldeb tosturiol ac arbennig ar gyfer staff, disgyblu a chwynion, bwlio ac aflonyddu a gallu.

- Dathlu digwyddiadau allweddol ym maes amrywiaeth a gwahodd siaradwyr allanol yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon a 'Movember'.

- Meithrin partneriaethau cryfach â sefydliadau allanol ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn nodi a rhannu arfer gorau.

11 Mae'r tabl yn Atodiad un yn rhoi mwy o fanylion am gyflawniadau allweddol eraill a gweithgareddau cydraddoldeb ac amrywiaeth eraill a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014.

# Ymrwymiad corfforaethol

12 Mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, y Bwrdd Gweithredol, pob aelod o staff a phanelau fel aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

13 Mae'r cyfrifoldebau penodol fel a ganlyn:

- Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu'r cyfeiriad strategol sy'n helpu i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb.
- Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am bennu polisïau mewnol sy'n helpu i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb.
- Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am arwain yr agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Mae'r grŵp llywio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyfrifol am fonitro cynnydd yn erbyn ein cynllun gweithredu amcanion cydraddoldeb ac am fesur perfformiad yn erbyn meincnodau mewnol ac allanol.
- Mae'r tîm Cydymffurfio â Deddfwriaeth yn gyfrifol am ddatblygu'r agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth ac am roi cymorth ac arweiniad i'n staff.

# Dadansoddi ein data

## Cefndir

14 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r data monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd ar gael gennym ar gyfer pum grŵp allweddol o unigolion, gan gynnwys y canlynol.

- Aelodau o staff a gyflogwyd gennym rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014.
- Aelodau penodedig y Cyngor ar 31 Mawrth 2014.
- Aelodau penodedig y panel Addasrwydd i Ymarfer ar 31 Mawrth 2014.
- Nyrsys a bydwragedd oedd wedi'u rhestru ar y gofrestr ar 31 Mawrth 2014.
- Nyrsys a bydwragedd a oedd yn destun achosion Addasrwydd i Ymarfer ar gamau gwahanol rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014.

15 Mae'r adroddiad yn cynnwys data ar oedran, anabledd, rhyw, ethnigrwydd, crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol.

## Ffynonellau data

16 Daw'r data yn yr adroddiad hwn o nifer o'n cronfeydd data a nodir manylion y rhain isod:

- Aelodau o staff - caiff data eu dal gan y tîm Adnoddau Dynol a'u casglu gan ddefnyddio holiadur monitro.
- Aelodau'r Cyngor - caiff data eu dal gan dîm Gwasanaethau'r Cyngor a'u casglu gan ddefnyddio holiadur monitro.
- Aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer - caiff data eu dal gan dîm Cymorth y Panel Addasrwydd i Ymarfer a'u casglu gan ddefnyddio holiadur monitro.
- Nyrsys a bydwragedd (gan gynnwys data am achosion Addasrwydd i Ymarfer) - caiff data ar gyfer nyrsys a bydwragedd, ac felly achosion Addasrwydd i Ymarfer hefyd, eu cadw ar ein cofrestr. Cesglir y data ar ein cofrestr drwy ddau lwybr: cesglir data am oedran a rhyw yn ystod y cam cofrestru cychwynnol, ac yn hanesyddol, cafodd data am ethnigrwydd, anabledd, crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol eu casglu drwy holiadur papur.

## Nodiadau dadansoddi

17 Nid yw'n ofynnol i'n staff, aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer, na nyrsys a bydwragedd cofrestredig ddarparu data monitro Addasrwydd i Ymarfer. Gall unigolion ddewis peidio â rhoi'r wybodaeth hon drwy beidio â chwblhau'r ffurflen fonitro hon, gadael cwestiynau'n wag, neu ddangos y byddai'n well ganddynt 'beidio ag ateb'. Felly, yn yr adroddiad hwn, mae gennym set ddata lai ar gyfer nyrsys a bydwragedd nag ar gyfer aelodau o staff y CNB ac aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer.

18 Wrth gyflwyno'r data yn yr adroddiad hwn, mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mewn nifer fach o achosion, mae hyn yn golygu y gall y data greu cyfanswm, o fwy neu lai na 100 y cant.

## Gwella ein data

19 Rydym yn ymrwymedig i wella ansawdd a chyflawnrwydd ein data monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn gallu llunio adroddiadau mwy effeithiol. Rydym wedi adolygu'r dulliau a ddefnyddiwn i gasglu data gan ddefnyddio cyngor gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a sefydliadau arfer gorau eraill. Gwnaethom hefyd gyfeirio at gyfrifiad 2011 y DU er mwyn llywio iaith yr holiaduron.

20 Rydym wrthi ar hyn o bryd yn integreiddio'r holiadur monitro newydd i mewn i'r system gofrestru ar-lein. Disgwyliwn i hyn gynyddu ansawdd a chyflawnrwydd ein data.

## Proffil aelodau'r Cyngor

21 Mae'r proffil yn dangos data cydraddoldeb ac amrywiaeth aelodau'r cyngor a oedd wedi'u penodi ar 31 Mawrth 2014.

22 Roedd gan y cyngor 12 o aelodau.

23 Roedd 42 y cant o aelodau'r cyngor rhwng 50 a 59 oed (gweler ffigur 1).

24 Dywedodd 92 y cant o aelodau'r cyngor nad oedd ganddynt anabledd a dywedodd wyth y cant fod ganddynt anabledd (gweler ffigur 2).


25 Merched oedd 75 y cant o aelodau'r cyngor ac roedd 25 y cant yn ddynion (gweler ffigur 3).

26 Cadarnhaodd 92 y cant o aelodau'r cyngor eu bod o gefndir gwyn[1] (gweler ffigur 4).


27 Cadarnhaodd 25 y cant o aelodau'r cyngor eu bod yn Gristnogion (gweler ffigur 5).

28 Dywedodd 100 y cant o aelodau'r cyngor eu bod yn heterorywiol (gweler ffigur 6).

**Ffigur 1: Dadansoddiad yn ôl oedran**





**Ffigur 2: Dadansoddiad yn ôl anabledd**





[1] Roedd y grŵp hwn yn cynnwys Gwyn Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, Prydeinig, Gwyddelig a chefndir Gwyn arall.


**Ffigur 3: Dadansoddiad yn ôl rhyw**





**Ffigur 4: Dadansoddiad yn ôl hil (ethnigrwydd)**




**Ffigur 5: Dadansoddiad yn ôl crefydd**



**Ffigur 6: Dadansoddiad yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**




## Proffil staff

29 Mae'r proffil yn dangos data cydraddoldeb ac amrywiaeth ein staff a oedd wedi'u cyflogi rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014.

30 Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gyflogi cyfanswm o 663 o aelodau o staff. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau holiadur amrywiaeth cyn iddynt ddechrau cyflogaeth â ni.

31 Roedd 173 yn aelodau newydd o staff ac roedd 158 yn aelodau o staff sy'n gadael.

32 Roedd 36 y cant o'r aelodau o staff rhwng 20 a 29 oed (gweler ffigur 7).

33 Dywedodd 90 y cant o'r aelodau o staff nad oedd ganddynt anabledd. Dywedodd dau y cant o'r aelodau o staff fod ganddynt anabledd (gweler ffigur 8).

34 Merched oedd 64 y cant o'r aelodau o staff ac roedd 36 y cant yn ddynion (gweler ffigur 9).


35 Dywedodd 61 y cant o'r aelodau o staff eu bod o gefndir gwyn[2] (gweler ffigur 10).

36 Cadarnhaodd 38 y cant o'r aelodau o staff eu bod yn Gristnogion, a chadarnhaodd 31 y cant nad oeddent yn perthyn i unrhyw grefydd neu nad oedd ganddynt unrhyw gred (gweler ffigur 11).


37 Dywedodd 88 y cant o'r aelodau o staff eu bod yn heterorywiol (gweler ffigur 12).

[2] Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cefndir Gwyn Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, Prydeinig, Gwyddelig a chefndir Gwyn arall.


**Ffigur 7: Dadansoddiad yn ôl oedran**





**Ffigur 8: Dadansoddiad yn ôl anabledd**




**Ffigur 9: Dadansoddiad yn ôl rhyw**





**Ffigur 10: Dadansoddiad yn ôl hil (tarddiad ethnig)**



**Ffigur 11: Dadansoddiad yn ôl crefydd/gred**




**Ffigur 12: Dadansoddiad yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**



## Proffil aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer

38 Mae'r proffil yn darparu data cydraddoldeb ac amrywiaeth aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer a oedd wedi'u penodi ar 31 Mawrth 2014

39 Roedd gan y panel 423 o aelodau.

40 Roedd 39 y cant o aelodau'r panel rhwng 50 a 59 oed (gweler ffigur 13).

41 Dywedodd 74 y cant o aelodau'r panel nad oedd ganddynt anabledd a dywedodd wyth y cant fod ganddynt anabledd (gweler ffigur 14).


42 Merched oedd 60 y cant o aelodau'r panel ac roedd 29 y cant yn ddynion (gweler ffigur 15).

43 Cadarnhaodd 77 y cant o aelodau'r panel eu bod o gefndir gwyn[3] (gweler ffigur 16).

44 Cadarnhaodd 50 o aelodau'r panel eu bod yn Gristnogion, a chadarnhaodd 21 y cant o aelodau'r panel nad oeddent yn perthyn i unrhyw grefydd neu nad oedd ganddynt unrhyw gred (gweler ffigur 17.)


45 Dywedodd 74 y cant o aelodau'r panel eu bod yn heterorywiol (gweler ffigur 18).

**Ffigur 13: Dadansoddiad yn ôl oedran**





[3] Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cefndir Gwyn Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, Prydeinig, Gwyddelig a chefndir Gwyn arall.


**Ffigur 14: Dadansoddiad yn ôl anabledd**





**Ffigur 15: Dadansoddiad yn ôl rhyw**




**Ffigur 16: Dadansoddiad yn ôl hil (tarddiad ethnig)**




**Ffigur 17: Dadansoddiad yn ôl crefydd/gred**



**Ffigur 18: Dadansoddiad yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**




## Nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr

46 Mae'r proffil yn dangos data cydraddoldeb ac amrywiaeth y 680,858 o nyrsys a bydwragedd a oedd ar ein cofrestr ar 31 Mawrth 2014.

47 Roedd 31 y cant o'r nyrsys a bydwragedd rhwng 40 a 49 oed (gweler ffigur 19).

48 Dywedodd 34 y cant o'r nyrsys a bydwragedd nad oedd ganddynt anabledd. O ran 56 y cant o'r nyrsys a bydwragedd, nid oedd y wybodaeth hon yn hysbys neu roedd yn well ganddynt beidio ag ateb (gweler ffigur 20).

49 Merched oedd 90 y cant o'r nyrsys a bydwragedd ac roedd 10 y cant yn ddynion (gweler ffigur 21).


50 Dywedodd 38 y cant o'r nyrsys a bydwragedd eu bod o gefndir gwyn[4] (gweler ffigur 22).

51 Cadarnhaodd 33 y cant o'r nyrsys a bydwragedd eu bod yn Gristnogion, a chadarnhaodd naw y cant nad oedd ganddynt unrhyw gred ac nad oeddent yn perthyn i unrhyw grefydd (gweler ffigur 23).


52 Dywedodd 40 y cant o'r nyrsys a bydwragedd eu bod yn heterorywiol. Dywedodd un y cant eu bod yn lesbiaidd, deurywiol neu hoyw. O ran 59 y cant o'r nyrsys a bydwragedd, nid oedd y wybodaeth hon yn hysbys neu roedd yn well ganddynt beidio ag ateb (gweler ffigur 24).

[4] Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cefndir Gwyn Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, Prydeinig, Gwyddelig a chefndir Gwyn arall.


**Ffigur 19: Dadansoddiad yn ôl oedran**





**Ffigur 20: Dadansoddiad yn ôl anabledd**





**Ffigur 21: Dadansoddiad yn ôl rhyw**




**Ffigur 22: Dadansoddiad yn ôl hil (tarddiad ethnig)**




**Ffigur 23: Dadansoddiad yn ôl crefydd**



**Ffigur 24: Dadansoddiad yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**




## Proffiliau achos Addasrwydd i Ymarfer

53 Rydym wedi dadansoddi'r data cydraddoldeb ac amrywiaeth a ddelir gennym yn ôl 'nodweddion gwarchodedig' ar gyfer y camau canlynol o'n proses cydraddoldeb ac amrywiaeth:

- Atgyfeiriadau a nodwyd: achosion lle codwyd pryder a lle nad ydym eto wedi nodi neu lle rydym wedi nodi nyrs neu fydwraig ar ein cofrestr.
- Gorchmynion interim: mewn achosion lle ceir risg ddifrifol ac uniongyrchol i ddiogelwch claf neu'r cyhoedd, a lle rydym wedi cymryd camau brys drwy osod gorchymyn interim er mwyn atal neu gyfyngu ar ymarfer y nyrs neu'r fydwraig dan sylw.
- Canlyniadau'r pwyllgor ymchwilio: achosion a atgyfeiriwyd gennym, yn dilyn ymchwiliad, at un o baneli ein pwyllgor ymchwilio er mwyn penderfynu a oes achos i'w ateb.
- Dyfarniad: canlyniadau achosion a atgyfeiriwyd gan y pwyllgor ymchwilio am ddyfarniad gan un o baneli ein pwyllgor iechyd neu bwyllgor ymddygiad a chymhwysedd.

**Atgyfeiriadau a nodwyd**


54 Pan fyddwn yn cael cwyn newydd, rydym yn ymchwilio i weld p'un a yw'r nyrs neu'r fydwraig a atgyfeiriwyd ar ein cofrestr. Os na allwn ddod o hyd i'r nyrs neu'r fydwraig ar ein cofrestr, mae'n ofynnol i ni gau'r achos.

55 Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014, cawsom 4,687 o atgyfeiriadau newydd. Mae'r adran hon yn nodi manylion y data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer y 3,925 o atgyfeiriadau a nodwyd ar ein cofrestr. Roedd 762 o atgyfeiriadau nas nodwyd.

**Ffigur 25: Tabl yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl oedran**

| Oedran | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| O dan 25 oed | 30 | 1% |
| 25–34 | 473 | 12% |
| 35–44 | 1066 | 27% |
| 45–54 | 1425 | 36% |
| 55 oed neu drosodd | 931 | 24% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 0 | 0% |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau** | **3925** | **100%** |


**Ffigur 26: Siart yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl oedran**




**Ffigur 27: Tabl yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl anabledd**

| Anabledd | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| Oes | 365 | 9% |
| Nac oes | 1158 | 30% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 2402 | 61% |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau** | **3925** | **100%** |


**Ffigur 28: Siart yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl anabledd**




**Ffigur 29: Tabl yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl rhyw**

| Rhyw | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| Merched | 2972 | 76% |
| Dynion | 953 | 24% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 0 | 0% |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau** | **3925** | **100.00%** |


**Ffigur 30: Siart yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl rhyw**



**Ffigur 31: Tabl yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl hil (tarddiad ethnig)**

| Grŵp ethnig | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 1077 | 27% |
| Du | 298 | 8% |
| Asiaidd | 109 | 3% |
| Cymysg | 17 | 0% |
| Arall | 18 | 0% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 2406 | 61% |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau** | **3925** | **100%** |


**Ffigur 32: Siart yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl hil (tarddiad ethnig)**




**Ffigur 33: Tabl yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl crefydd neu gred**

| Crefydd | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| Bwdhaidd | 9 | 0% |
| Cristion | 1020 | 26% |
| Hindŵ | 14 | 0% |
| Iddewig | 2 | 0% |
| Moslem | 31 | 1% |
| Sikh | 5 | 0% |
| Crefydd arall | 61 | 2% |
| Dim crefydd | 241 | 6% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 2542 | 65% |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau** | **3925** | **100%** |


**Ffigur 34: Siart yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl crefydd neu gred**




**Ffigur 35: Tabl yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**

| Cyfeiriadedd rhywiol | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---:|---:|
| Heterorywiol | 1308 | 33% |
| Deurywiol | 21 | 1% |
| Hoyw neu lesbiaidd | 29 | 1% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 2567 | 65% |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau** | **3925** | **100%** |

**Ffigur 36: Siart yn dangos atgyfeiriadau newydd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**



**Gorchmynion interim**

56 Os bydd iechyd a lles y cyhoedd mewn perygl uniongyrchol a difrifol, gallwn gymryd camau brys drwy orfodi gorchmynion interim. Mewn sefyllfa o'r fath, gofynnir i banel pwyllgor ymarfer ystyried a ddylai'r nyrs neu'r fydwraig gael ei hatal dros dro ar unwaith neu a ddylid cyfyngu ar y ffordd y gall ymarfer, nes i ni allu ymchwilio i'r achos yn drwyadl.

57 Rydym yn asesu pob achos yn gyson drwy gydol y broses, felly os daw gwybodaeth newydd i'r amlwg ar unrhyw adeg sy'n awgrymu bod risg uniongyrchol a difrifol i'r cyhoedd, gallwn ystyried a oes angen cyflwyno gorchymyn interim.

58 Caiff gwrandawiadau i ystyried gorchymyn interim eu cynnal yn gyhoeddus. Bydd panel yn ystyried pa un a yw'r gorchymyn interim:


- Yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd.
- Er budd y cyhoedd.
- Er budd y nyrs neu'r fydwraig.

59 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r data cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd ar gael ar gyfer y 768 o achosion a fu'n destun amodau ymarfer interim neu orchymyn atal dros dro interim.

**Ffigur 37: Tabl yn dangos gorchmynion interim yn ôl oedran**

| Oedran | Gorchymyn amodau ymarfer interim | Gorchymyn atal dros dro interim | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|
| O dan 25 oed | 4 | 2 | 6 | 1% |
| 25–34 | 30 | 48 | 78 | 10% |
| 35–44 | 73 | 119 | 192 | 25% |
| 45–54 | 110 | 190 | 300 | 39% |
| 55 oed neu drosodd | 72 | 120 | 192 | 25% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 0 | 0 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **289** | **479** | **768** | **100%** |


**Ffigur 38: Siart yn dangos gorchmynion interim yn ôl oedran**




**Ffigur 39: Tabl yn dangos gorchmynion interim yn ôl anabledd**

| Anabledd | Gorchymyn amodau ymarfer interim | Gorchymyn atal dros dro interim | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Oes | 26 | 45 | 71 | 9% |
| Nac oes | 77 | 122 | 199 | 26% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 186 | 312 | 498 | 65% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **289** | **479** | **768** | **100%** |


**Ffigur 40: Siart yn dangos gorchmynion interim yn ôl anabledd**



**Ffigur 41: Tabl yn dangos gorchmynion interim yn ôl rhyw**

| Rhyw | Gorchymyn amodau ymarfer interim | Gorchymyn atal dros dro interim | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Merched | 218 | 342 | 560 | 73% |
| Dynion | 71 | 137 | 208 | 27% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 0 | 0 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **289** | **479** | **768** | **100%** |


**Ffigur 42: Siart yn dangos gorchmynion interim yn ôl rhyw**




**Ffigur 43: Tabl yn dangos gorchmynion interim yn ôl hil (tarddiad ethnig)**

| Tarddiad ethnig | Gorchymyn amodau ymarfer interim | Gorchymyn atal dros dro interim | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 63 | 125 | 188 | 24% |
| Du | 26 | 24 | 50 | 7% |
| Asiaidd | 12 | 12 | 24 | 3% |
| Cymysg | 1 | 2 | 3 | 0% |
| Arall | 1 | 2 | 3 | 0% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 186 | 314 | 500 | 65% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **289** | **479** | **768** | **100%** |


**Ffigur 44: Siart yn dangos gorchmynion interim yn ôl hil (tarddiad ethnig)**




**Ffigur 45: Tabl yn dangos gorchmynion interim yn ôl crefydd neu gred**

| Crefydd | Gorchymyn amodau ymarfer interim | Gorchymyn atal dros dro interim | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Bwdhaidd | 2 | 2 | 4 | 1% |
| Cristion | 64 | 110 | 174 | 23% |
| Hindŵ | 1 | 0 | 1 | 0% |
| Iddewig | 0 | 0 | 0 | 0% |
| Moslem | 2 | 4 | 6 | 1% |
| Sikh | 0 | 0 | 0 | 0% |
| Crefydd arall | 4 | 8 | 12 | 2% |
| Dim crefydd | 18 | 25 | 43 | 6% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 198 | 330 | 528 | 69% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **289** | **479** | **768** | **100%** |


**Ffigur 46: Siart yn dangos gorchmynion interim yn ôl crefydd neu gred**




**Ffigur 47: Tabl yn dangos gorchmynion interim yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**

| Cyfeiriadedd rhywiol | Gorchymyn amodau ymarfer interim | Gorchymyn atal dros dro interim | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol | 86 | 139 | 225 | 29% |
| Hoyw neu lesbiaidd | 2 | 6 | 8 | 1% |
| Deurywiol | 4 | 1 | 5 | 1% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 197 | 333 | 530 | 69% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **289** | **479** | **768** | **100%** |

**Ffigur 48: Siart yn dangos gorchmynion interim yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**



**Y pwyllgorymchwilio**

60 Pan fyddwn yn fodlon y gallwn ymdrin ag achos a byddwn wedi cynnal ymchwiliad, caiff yr achos ei ystyried gan un o baneli'r pwyllgor ymchwilio.


61 Mater i banel y pwyllgor ymchwilio yw penderfynu a oes achos i'w ateb. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo benderfynu a oes siawns wirioneddol y gellid profi'r honiad ar y cam dyfarnu. Bydd paneli pwyllgorau ymchwilio yn gwneud y penderfyniad hwn yn breifat.

62 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r data cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd ar gael ar gyfer y 2,791 o achosion a ystyriwyd gan y pwyllgor ymchwilio.

**Ffigur 49: Tabl yn dangos canlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl oedran**

| Oedran | Dim achos i'w ateb | Anfonwyd am ddyfarniad | Cyfanswm yr achosion | Canran |
|---|---|---|---|---|
| O dan 25 oed | 14 | 3 | 17 | 1% |
| 25–34 | 194 | 131 | 325 | 12% |
| 35–44 | 402 | 347 | 749 | 27% |
| 45–54 | 505 | 514 | 1019 | 36% |
| 55 oed neu drosodd | 288 | 394 | 682 | 24% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **1403([5])** | **1389** | **2792([6])** | **100%** |

**Ffigur 50: Siart yn dangos canlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl oedran**





[5] Casglwyd y data ar y canlyniadau lle nad oedd achos i'w ateb drwy nodi rhifau cyfeirnod achosion Addasrwydd i Ymarfer. Felly, gwrandawyd un achos mewn dau bwyllgor ymchwilio, gyda'r ddau yn nodi nad oedd achos i'w ateb. Cyfanswm nifer canlyniadau'r achosion unigol yw 1404.

[6] Casglwyd y data ar ganlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl oedran drwy nodi rhifau cyfeirnod achosion Addasrwydd i Ymarfer. Felly, mae'n bosibl bod nifer o ddigwyddiadau pwyllgor ymchwilio wedi'u cynnal ar gyfer rhai achosion gan arwain at nifer o ganlyniadau. Cyfanswm nifer y canlyniadau achosion unigol yw 2809.

**Ffigur 51: Tabl yn dangos canlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl anabledd**

| Anabledd | Dim achos i'w ateb | Anfonwyd am ddyfarniad | Cyfanswm yr achosion | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Oes | 130 | 76 | 206 | 7% |
| Nac oes | 434 | 396 | 830 | 30% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 840 | 933 | 1773 | 63% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **1404** | **1405** | **2809** | **100%** |

**Ffigur 52: Siart yn dangos canlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl anabledd**




**Ffigur 53: Tabl yn dangos canlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl rhyw**

| Rhyw | Dim achos i'w ateb | Anfonwyd am ddyfarniad | Cyfanswm yr achosion | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Merched | 1090 | 1001 | 2091 | 75% |
| Dynion | 313 | 388 | 701 | 25% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **1403([7])** | **1389** | **2792 ([8])** | **100%** |

*Casglwyd y data ar ganlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl rhyw drwy nodi rhifau cyfeirnod achosion Addasrwydd i Ymarfer. Felly, mae'n bosibl bod nifer o ddigwyddiadau pwyllgor ymchwilio wedi'u cynnal ar gyfer rhai achosion gan arwain at nifer o ganlyniadau. Cyfanswm nifer y canlyniadau achosion unigol yw 2809.

**Ffigur 54: Tabl yn dangos canlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl rhyw**





[7] Casglwyd y data ar y canlyniadau 'dim achos i'w ateb' drwy nodi rhifau cyfeirnod achosion Addasrwydd i Ymarfer. Felly, cafodd un achos ei glywed gan o leiaf ddau bwyllgor ymchwilio gyda'r ddau yn nodi nad oedd achos i'w ateb. Cyfanswm nifer y canlyniadau achosion unigol yw 1404.

[8] Casglwyd y data ar ganlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl oedran drwy nodi rhifau cyfeirnod achosion Addasrwydd i Ymarfer. Felly, mae'n bosibl bod nifer o ddigwyddiadau pwyllgor ymchwilio wedi'u cynnal ar gyfer rhai achosion gan arwain at nifer o ganlyniadau. Cyfanswm nifer y canlyniadau achosion unigol yw 2809.

**Ffigur 55: Tabl yn dangos canlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl hil (tarddiad ethnig)**

| Grŵp ethnig | Dim achos i'w ateb | Anfonwyd am ddyfarniad | Cyfanswm yr achosion | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 405 | 319 | 724 | 26% |
| Du | 94 | 107 | 201 | 7% |
| Asiaidd | 50 | 36 | 86 | 3% |
| Cymysg | 3 | 4 | 7 | 0% |
| Arall | 4 | 4 | 8 | 0% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 848 | 935 | 1783 | 63% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **1404** | **1405** | **2809** | **100%** |


**Ffigur 56: Siart yn dangos canlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl hil (tarddiad ethnig)**



**Ffigur 57: Tabl yn dangos canlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl crefydd neu gred**

| **Crefydd** | **Dim achos i'w ateb** | **Anfonwyd am ddyfarniad** | **Cyfanswm yr achosion** | **Canran** |
|---|---|---|---|---|
| Bwdhaidd | 3 | 6 | 9 | 0% |
| Cristion | 375 | 338 | 713 | 25% |
| Hindŵ | 5 | 2 | 7 | 0% |
| Iddewig | 1 | 1 | 2 | 0% |
| Moslem | 12 | 7 | 19 | 1% |
| Sikh | 1 | 0 | 1 | 0% |
| Crefydd arall | 17 | 23 | 40 | 1% |
| Dim crefydd | 94 | 57 | 151 | 5% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 896 | 971 | 1867 | 66% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **1404** | **1405** | **2809** | **100%** |


**Ffigur 58: Siart yn dangos canlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl crefydd neu gred**



**Ffigur 59: Tabl yn dangos canlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**

| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim achos i'w ateb | Anfonwyd am ddyfarniad | Cyfanswm yr achosion | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol | 474 | 378 | 852 | 30% |
| Deurywiol | 14 | 9 | 23 | 1% |
| Hoyw neu lesbiaidd | 7 | 20 | 27 | 1% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 909 | 998 | 1907 | 68% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **1404** | **1405** | **2809** | **100%** |

**Ffigur 60: Siart ar ganlyniadau terfynol y pwyllgor ymchwilio yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**



**Dyfarniadau**

63 Caiff achosion a atgyfeirir gan y pwyllgor ymchwilio am ddyfarniad eu hystyried gan banel o'r pwyllgor ymddygiad a chymhwysedd neu'r pwyllgor iechyd. Cânt eu hystyried mewn gwrandawiad neu gyfarfod.


64 Diben y gwrandawiad neu'r cyfarfod yw penderfynu a yw'r unigolyn yn addas i barhau ar y gofrestr heb gyfyngiad. Ar y cam dyfarnu terfynol, gellir penderfynu bod addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig yn ddiffygiol neu ddim yn ddiffygiol. Os penderfynir bod addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig yn ddiffygiol, ni allwn orfodi sancsiwn os byddwn yn canfod diffyg.

65 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r data cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd ar gael ar gyfer y 1805 o achosion â chanlyniad dyfarnu terfynol.

**Ffigur 61: Tabl yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl oedran**

| Oedran | Dileu oddi ar y gofrestr | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O dan 25 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0% |
| 25–34 | 44 | 33 | 25 | 19 | 23 | 144 | 8% |
| 35–44 | 117 | 113 | 68 | 67 | 100 | 465 | 26% |
| 45–54 | 215 | 120 | 97 | 90 | 157 | 679 | 38% |
| 55 oed neu drosodd | 161 | 91 | 50 | 85 | 128 | 515 | 29% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **537** | **357** | **240** | **261** | **410** | **1805** | **100%** |


**Ffigur 62: Siart yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl oedran**



**Ffigur 63: Tabl yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl anabledd**

| Anabledd | Dileu oddi ar y gofrestr | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Diffygiol - dim sancsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oes | 13 | 4 | 15 | 8 | 30 | 1 | 71 | 4% |
| Nac oes | 163 | 91 | 65 | 79 | 109 | 0 | 507 | 28% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 361 | 262 | 160 | 174 | 265 | 5 | 1227 | 68% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **537** | **357** | **240** | **261** | **404** | **6** | **1805** | **100%** |


**Ffigur 64: Siart yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl anabledd**




**Ffigur 65: Tabl yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl rhyw**

| Rhyw | Dileu oddi ar y gofrestr | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Diffygiol - dim sancsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Merched | 372 | 270 | 175 | 200 | 312 | 4 | 1333 | 74% |
| Dynion | 165 | 87 | 65 | 61 | 92 | 2 | 472 | 26% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **537** | **357** | **240** | **261** | **404** | **6** | **1805** | **100%** |


**Ffigur 66: Siart yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl rhyw**




**Ffigur 67: Tabl yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl hil (tarddiad ethnig)**

| Tarddiad ethnig | Dileu oddi ar y gofrestr | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Diffygiol - dim sancsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 111 | 59 | 45 | 57 | 88 | 0 | 360 | 20% |
| Du | 50 | 22 | 24 | 16 | 35 | 1 | 148 | 8% |
| Asiaidd | 14 | 9 | 11 | 9 | 13 | 0 | 56 | 3% |
| Cymysg | 1 | 2 | 2 | 3 | 0 | 0 | 8 | 0% |
| Arall | 1 | 0 | 2 | 2 | 3 | 0 | 8 | 0% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 360 | 265 | 156 | 174 | 265 | 5 | 1225 | 68% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **537** | **357** | **240** | **261** | **404** | **6** | **1805** | **100%** |


**Ffigur 68: Siart yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl hil (tarddiad ethnig)**




**Ffigur 69: Tabl yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl crefydd**

| Crefydd | Dileu oddi ar y gofrestr | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Diffygiol - dim sancsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwdhaidd | 1 | 1 | 0 | 1 | 3 | 0 | 6 | 0% |
| Cristion | 125 | 64 | 55 | 59 | 92 | 1 | 396 | 22% |
| Hindŵ | 2 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 4 | 0% |
| Iddewig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0% |
| Moslem | 4 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 12 | 1% |
| Sikh | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0% |
| Crefydd arall | 7 | 2 | 5 | 5 | 6 | 0 | 25 | 1% |
| Dim crefydd | 20 | 16 | 9 | 17 | 20 | 0 | 82 | 5% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 378 | 272 | 167 | 177 | 280 | 5 | 1279 | 71% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **537** | **357** | **240** | **261** | **404** | **6** | **1805** | **100%** |


**Ffigur 70: Siart yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl crefydd**




**Ffigur 71: Tabl yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**

| Cyfeiriadedd rhywiol | Dileu oddi ar y gofrestr | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Diffygiol - dim sancsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol | 145 | 84 | 55 | 73 | 111 | 0 | 468 | 26% |
| Hoyw neu lesbiaidd | 5 | 3 | 2 | 1 | 4 | 0 | 15 | 1% |
| Deurywiol | 4 | 1 | 1 | 2 | 3 | 1 | 12 | 1% |
| Anhysbys / Dewis peidio ag ateb | 383 | 269 | 182 | 185 | 286 | 5 | 1310 | 73% |
| **Cyfanswm y canlyniadau** | **537** | **357** | **240** | **261** | **404** | **6** | **1805** | **100%** |

**Ffigur 72: Siart yn dangos canlyniadau sancsiynau yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**




## Camau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf

66 Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar wneud y canlynol:

- rhoi ein holiadur amrywiaeth newydd ar waith er mwyn gwella'r ffordd rydym yn casglu data;
- defnyddio arbenigedd sefydliadau arfer gorau er mwyn adolygu ein polisïau adnoddau dynol yn erbyn Deddf Cydraddoldeb 2010;
- dadansoddi’r ymatebion i'r ymgynghoriad ar effeithiau posibl ein model ailddilysu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth;
- meithrin cydberthnasau rhanddeiliaid â sefydliadau arfer gorau;
- sicrhau bod ein hysbysiadau recriwtio yn cyrraedd cynulleidfa amrywiol;
- gwella hygyrchedd ein gwefan newydd;
- dangos tystiolaeth o gystadleuaeth deg a chyfle cyfartal i gyflenwyr.

67 Mae'r cynllun gweithredu amcanion cydraddoldeb y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef ar gael ar ein gwefan[9].

## Casgliad

68 Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael â'n hamcanion cydraddoldeb yn 2013-14. Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer 2015 yn barod i'w roi ar waith, gan gydnabod bod angen rhagor o waith ym mhob un o'n gweithgareddau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

[9] http://www.nmc-uk.org/Documents/EandD/Equality%20objectives%20action%20plan%202014-2015.pdf

# Atodiad un - Crynodeb o'r cynnydd a wnaed rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014

| **Amcanion a chamau gweithredu ategol** | **Cynnydd a chyflawniadau yn 2013 a 2014** | **Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2014 a 2015** |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Cynnwys amrywiaeth -** byddwn yn cynnwys amrywiaeth ymhellach wrth gyflawni ein swyddogaethau statudol | | |
| 1. Sicrhau bod yr amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ategu ein cynllun corfforaethol. | **Fframwaith cynllunio busnes corfforaethol**<br>Roedd y fframwaith cynllunio busnes corfforaethol yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyfarwyddiaeth gynnwys yr amcanion cydraddoldeb ac ystyried goblygiadau posibl o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o'i chynllun busnes.<br><br>**Cynllun corfforaethol 2014-2017**<br>Yn ein cynllun corfforaethol presennol ar gyfer 2014-2017, rydym wedi cynnwys amcan penodol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth: “byddwn yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddarparu ein gwasanaethau fel rheoleiddiwr ac fel cyflogwr”. Bu o gymorth i ni sicrhau bod ein prosesau llywodraethu yn helpu i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth.<br><br>**Y broses o gyflwyno adroddiadau**<br>Bob tri mis, rydym yn cyflwyno adroddiadau ar gynnydd cynlluniau busnes cyfarwyddiaethau a'r cynllun corfforaethol i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor. Fel rhan o'r broses hon, mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor yn cynnig argymhellion ar gyfer camau gweithredu pellach. | Byddwn yn parhau i ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein fframwaith cynllunio busnes.<br><br>Yn ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2015-2018, byddwn yn sicrhau bod camau gweithredu a chanlyniadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u cynnwys.<br><br>Byddwn yn parhau i gyflwyno adroddiadau ar ein cynnydd i'r Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol bob tri mis. |
| 2. Gwella ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae ein gweithgareddau, swyddogaethau | **Rhoi ein pecyn cymorth dadansoddi cydraddoldeb newydd ar waith**<br>Rydym wedi datblygu pecyn cymorth dadansoddi cydraddoldeb newydd a'i roi ar waith. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys: | Byddwn yn parhau i ymgorffori'r pecyn cymorth dadansoddi cydraddoldeb yn ein fframwaith datblygu polisïau a rheoli rhaglenni. |

| | | |
|---|---|---|
| a gwasanaethau yn effeithio ar grwpiau amrywiol er mwyn i ni allu dileu achosion o wahaniaethu anghyfreithlon. | • ffurflen dadansoddi cydraddoldeb gychwynnol sy'n nodi effeithiau posibl ar grwpiau gwahanol o bobl;<br>• ffurflen dadansoddi cydraddoldeb lawn sy'n cynnwys camau i leihau neu ddileu effeithiau ar grwpiau gwahanol o bobl;<br>• canllawiau ar ddadansoddi cydraddoldeb er mwyn cynorthwyo defnyddwyr.<br><br>**Dadansoddi cydraddoldeb a datblygu polisïau**<br>Rydym wedi cynnal cyfres o ymarferion dadansoddi cydraddoldeb yn ystod ein gwaith datblygu polisïau. Ymhlith y rhain roedd:<br>• recriwtio Cadeirydd y Cyngor;<br>• ein polisi diogelu data diwygiedig;<br>• yr adolygiad o gyflogau a graddfeydd staff;<br>• y newidiadau arfaethedig i'n rheolau a'n rheoliadau llywodraethu;<br>• y cynnig i ddefnyddio archwilwyr achos Addasrwydd i Ymarfer yn ystod ein gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer er mwyn sicrhau eu bod yn archwilio achosion Addasrwydd i Ymarfer yn deg;<br>• profion cymhwysedd i unigolion dramor. | Byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn ystyried y goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth newid ein polisïau.<br><br>Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad cydraddoldeb ar ein:<br>• Polisi cofrestru yn y DU;<br>• Prosiect cofrestru dramor;<br>• Model ail-ddilysu |

<table>
<tr><th colspan="3">Amcan 2: Arweinyddiaeth - bydd ein harweinwyr yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant</th></tr>
<tr>
<td>3. Adolygu aelodaeth y grŵp llywio cydraddoldeb ac amrywiaeth (Fforwm yr Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn flaenorol).</td>
<td>Adolygu'r grŵp llywio cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>Rydym wedi adolygu aelodaeth y grŵp llywio cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd ac o leiaf ddau aelod o staff o bob cyfarwyddiaeth.<br><br>Rydym hefyd wedi adolygu cylch gorchwyl y grŵp llywio er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r newidiadau i aelodaeth y grŵp.<br><br>Gwerthuso'r grŵp llywio cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>Rydym wedi cyflwyno adroddiadau ar gynnydd i'r Bwrdd Gweithredol bob tri mis a oedd yn cynnwys asesiadau i weithgareddau'r grŵp llywio.<br><br>Ymhlith enghreifftiau allweddol o weithgareddau'r grŵp llywio roedd:<br><br>• mynychu digwyddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth allanol er mwyn deall materion allweddol;<br><br>• rhoi cyngor i aelodau o staff ar sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth dadansoddi cydraddoldeb;<br><br>• datblygu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth;<br><br>• monitro cynnydd yr amcanion cydraddoldeb;<br><br>• codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth;<br><br>• rhannu arfer gorau ag aelodau'r grŵp a staff.</td>
<td>Bydd ein grŵp llywio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gwneud y canlynol:<br><br>• rhoi cyngor i'r Bwrdd Gweithredol ar y broses o ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb;<br><br>• mynychu digwyddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth allanol er mwyn dysgu a rhannu arfer gorau;<br><br>• darparu erthyglau ysgrifenedig ar gyfer y cylchlythyr Staff wythnosol.<br><br>• rhoi adborth ar ei weithgareddau;<br><br>• cyfarfod bob tri mis.</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| 4. Rydym yn sicrhau bod unigolion a gaiff eu penodi i bwyllgorau a'n panel Addasrwydd i Ymarfer yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran amrywiaeth. | **Sesiynau hyfforddiant ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer aelodau newydd y panel Addasrwydd i Ymarfer, y Cyngor ac aelodau'r pwyllgorau**<br>Rydym wedi darparu sesiynau hyfforddiant ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer aelodau newydd y panel Addasrwydd i Ymarfer, y Cyngor ac aelodau'r pwyllgorau.<br><br>Cwblhaodd 413 (94 y cant) o aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer y modiwl e-ddysgu a ganolbwyntiodd ar y canlynol:<br><br>• sut roedd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn sicrhau bod pawb yn ein sefydliad yn cael ei werthfawrogi;<br><br>• y mathau gwahanol o wahaniaethu.<br><br>Mynychodd 441 (100 y cant) o aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer ein hyfforddiant wyneb yn wyneb ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:<br><br>• y risg o ragfarn a stereoteipio anymwybodol yn ystod prosesau gwneud penderfyniadau;<br><br>• cyfrifoldebau aelodau'r panel o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.<br><br>Mynychodd 11 (92 y cant) o'r Cyngor ein hyfforddiant wyneb yn wyneb ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:<br><br>• Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau'r sector cyhoeddus; | Byddwn yn diweddaru ein rhaglenni hyfforddiant ar gyfer holl aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer.<br><br>Byddwn yn gwerthuso'r sesiwn hyfforddiant ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth a ddarparwyd ar gyfer 11 o aelodau'r Cyngor ac yn ystyried a oes angen gwneud datblygiadau pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | • pwysigrwydd dadansoddi cydraddoldeb. | |
| **Amcan 3: Llywodraethu -** rhoi prosesau llywodraethu effeithiol ar waith i ategu cydraddoldeb a chynhwysiant | | |
| 5. Gwella'r ffordd rydym yn casglu data ar amrywiaeth nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr. | **Holiadur a llyfryn amrywiaeth**<br>Rydym yn annog nyrsys a bydwragedd i gwblhau ein holiadur amrywiaeth pan fyddant yn cofrestru â ni am y tro cyntaf neu'n ailgofrestru.<br><br>Rydym wedi gwella ein holiadur amrywiaeth fel y cam cyntaf tuag at wella ansawdd ein data. Rydym hefyd wedi diweddaru ein llyfryn ar yr holiadur amrywiaeth er mwyn egluro pam ein bod yn casglu data cydraddoldeb ac amrywiaeth a sut y caiff y data eu storio.<br><br>**Adroddiad blynyddol ar ddata monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth Addasrwydd i Ymarfer 2012-2013**<br>Rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar ddata monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth Addasrwydd i Ymarfer 2012-2013.[10] Mae'r adroddiad blynyddol yn darparu data ar bob un o'r grwpiau cydraddoldeb a fu'n destun ein camau Addasrwydd i Ymarfer. Rydym wedi cynnwys ein data monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer 2013-2014 yn yr adroddiad hwn. | Byddwn yn cyhoeddi'r holiadur amrywiaeth diwygiedig drwy ein gwefan, ein cylchlythyrau, Diweddariad CNB a Twitter.<br><br>Byddwn yn integreiddio ein holiadur amrywiaeth gwell i mewn i'r broses gofrestru ar-lein. Disgwyliwn y byddwn wedi casglu set ddata well a da ar gydraddoldeb ac amrywiaeth erbyn 2018.<br><br>Byddwn yn cyhoeddi ein data cydraddoldeb ac amrywiaeth Addasrwydd i Ymarfer yn ein hadroddiad blynyddol nesaf ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer 2014-2015. |
| **Amcan 4: Staff** - caiff ein staff eu gwerthfawrogi drwy gael eu trin â pharch a thrwy sicrhau y gallant weithio mewn amgylchedd lle na cheir achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu fwlio | | |
| 6. Adolygu'r holl bolisïau a hyfforddiant Adnoddau Dynol perthnasol er mwyn sicrhau ein bod yn | **Adolygu ein polisïau Adnoddau dynol**<br>Rydym wedi adolygu rhai o'n polisïau adnoddau dynol er mwyn gwella canllawiau ar gyfer cyflogeion a rheolwyr.<br><br>• Polisi bwlio ac aflonyddu: er mwyn egluro'r broses o wneud | Byddwn yn adolygu ein polisïau adnoddau dynol:<br><br>• Polisi gweithio gartref: er mwyn gwella hyblygrwydd yn y gwaith a sicrhau |

[10] Mae'r adroddiad blynyddol ar ddata monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth Addasrwydd i Ymarfer ar gael ar ein gwefan.

| | | |
|---|---|---|
| bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. | cwyn ac adlewyrchu'r newidiadau i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Polisi gallu cyflogeion: er mwyn rheoli gwelliannau mewn perfformiad swydd mewn ffordd gefnogol.<br><br>• Polisi absenoldeb tosturiol ac arbennig: er mwyn ystyried amgylchiadau personol cyflogeion.<br><br>• Polisi disgyblu a chwynion: er mwyn i ni allu ystyried materion yn anffurfiol yn gyntaf i'w datrys yn gyflym.<br><br>Yn ystod ein proses adolygu polisïau, gwnaethom ymgynghori ar y canlynol:<br><br>• y tîm adnoddau dynol;<br><br>• y grŵp ymgynghori â staff;<br><br>• sefydliadau cydraddoldeb ac amrywiaeth arfer gorau;<br><br>• y Bwrdd Gweithredol.<br>Rydym wedi cyhoeddi'r polisïau ar ein mewnrwyd staff ac mae'r rheolwyr adnoddau dynol wedi mynychu cyfarfodydd tîm er mwyn egluro'r polisïau i staff.<br><br>**Hyfforddiant ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth a chanfyddiadau ymarferion gwerthuso**<br>Rydym wedi cynnwys hyfforddiant gorfodol ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o'n proses sefydlu. Gwelsom fod 160 o aelodau newydd o staff wedi cofrestru i fynychu cwrs hyfforddiant wyneb yn wyneb ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth. O blith yr | cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith.<br><br>• Polisi cyfnod prawf: er mwyn galluogi aelodau newydd o staff i feithrin dealltwriaeth lawn o'u rôl a chyrraedd lefel dderbyniol o berfformiad mewn cyfnod rhesymol o amser.<br><br>• Polisi amgylchedd gwaith ac ymddygiad cysylltiedig: er mwyn hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol ymhlith staff.<br><br>Byddwn yn parhau i gynnal cyrsiau hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein er mwyn sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | aelodau newydd hyn o staff, mae 140 (81 y cant) wedi mynychu'r cwrs hyfforddiant.<br><br>Rydym hefyd wedi gwerthuso effeithiolrwydd ein hyfforddiant. Gofynnwyd i bob aelod newydd o staff gwblhau ffurflen werthuso ar ôl y cwrs hyfforddiant. Cwblhaodd 104 o aelodau newydd o staff y ffurflen werthuso ac o blith y rhain, dywedodd 55 (53 y cant) fod y cwrs hyfforddiant yn 'ardderchog'. | Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar wella presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddiant wyneb yn wyneb. |
| 7. Codi ymwybyddiaeth o arfer gorau, meincnodi perfformiad, a meithrin arbenigedd allanol mewn perthynas â'r naw nodwedd warchodedig. | **Meithrin arbenigedd**<br>Rydym wedi dod yn aelodau o sefydliadau cydraddoldeb ac amrywiaeth ac wedi cydweithio'n rheolaidd â hwy er mwyn meithrin arbenigedd a sefydlu arfer gorau. Roedd y sefydliadau'n cynnwys:<br><br>• Diversiton, sy'n codi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau crefydd neu gred.<br><br>• Y Gymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth o ran Rhywedd (GIRES), sy'n sicrhau bod y gyfraith yn diwallu anghenion pobl drawsrywiol neu bobl sy'n cael triniaeth i ailbennu eu rhywedd.<br><br>• Stonewall, sy'n rhoi cyngor ar ffyrdd o wella cyfleoedd ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.<br><br>• Y Fforwm Anabledd i Fusnesau, sy'n rhoi cyngor ar ffyrdd o wella cyfleoedd ar gyfer pobl ag anableddau.<br><br>• Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sy'n rhoi canllawiau ar arfer da yn seiliedig ar gyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol. | Byddwn yn parhau i feithrin cydberthnasau rhanddeiliaid â sefydliadau cydraddoldeb ac amrywiaeth arfer gorau.<br><br>Byddwn hefyd yn dod yn aelod o Race for Opportunity, sy;n rhoi cyngor ar sut i wella cyfleoedd ar gyfer pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. |

| | | |
|---|---|---|
| | <ul><li>Y Rhwydwaith Cyflogwyr Cydraddoldeb a Chynhwysiant, sy'n rhoi gwybodaeth am gyfreithiau newydd a diwygiedig ym maes cyflogaeth.</li><li>Rhwydwaith Buddsoddwyr mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y DU (UKIED), sy'n gweithio gydag ystod eang o gyrff cyhoeddus ac elusennau arbenigol ym maes cydraddoldeb er mwyn hyrwyddo arfer gorau.</li></ul>**Meincnodi ein perfformiad**<br>Rydym wedi ceisio cyngor ar feincnodi ein perfformiad gan rai sefydliadau, yn cynnwys:<ul><li>Y Gymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth o ran Rhywedd er mwyn meincnodi ein perfformiad o ran rheoli data cydraddoldeb ac amrywiaeth bobl drawsrywiol neu bobl sy'n cael triniaeth i ailbennu eu rhywedd.</li><li>Stonewall er mwyn meincnodi ein perfformiad o ran adolygu ein polisi adnoddau dynol.</li><li>Siop Cyfnewid Technoleg y Fforwm Anabledd i Fusnesau er mwyn meincnodi ein perfformiad o ran darparu cyfarpar addas ar gyfer staff mewnol ag anableddau.</li><li>Fforwm Cyfarwyddiaethau Rheoleiddio ac Ombwdsmyn CThEM er mwyn meincnodi ein perfformiad mewn perthynas ag egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth a hawliau dynol.</li><li>Rhwydwaith Buddsoddwyr mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y DU er mwyn meincnodi ein perfformiad o ran</li></ul> | |

| | | |
|---|---|---|
| | dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.<br><br>**Arfer gorau**<br>Rydym wedi mynychu Cyd-Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Rheoleiddwyr Gofal Iechyd ynghyd â naw rheoleiddiwr arall ym maes gofal iechyd er mwyn rhannu enghreifftiau o arfer gorau a thrafod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector gofal iechyd.<br><br>Yn ddiweddar, gwnaethom gynnal cyfarfod Rhwydwaith Buddsoddwyr mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y DU a oedd yn cynnwys rhannu arfer gorau a thrafod Islamaffobia yn y sector cyhoeddus. | |
| **Amcan 5: Darparu gwasanaethau** - byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd sy'n berthnasol i anghenion cymuned amrywiol | | |
| 8. Rydym yn annog amrywiaeth o ran cyflenwyr drwy sicrhau bod busnesau bach a chanolig (BBaCHau) yn cael cyfle i gynnig am gontractau. | **Annog cyfleoedd i ennill contractau ar gyfer BBaChau**<br>Gwnaethom ddadansoddi ein gwariant gan ystyried ffactorau fel gwerth a risg. Mae hyn wedi ein helpu i nodi categorïau gwariant a meysydd posibl lle y gellid pecynnu contractau yn y dyfodol mwyn denu BBaChau.<br><br>Eleni, talwyd tua 600 o gyflenwyr, yr oedd 99 y cant ohonynt yn BBaChau. Byddwn yn canolbwyntio ar godi proffil ein cyfleoedd i gynnig am gontractau er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch i BBaCHau a bod ein proses gaffael wedi'u hegluro'n glir.<br><br>**Hyfforddiant staff**<br>Rydym yn adolygu ein dogfennau hyfforddi staff. Bydd hyn yn helpu staff i ddeall pwysigrwydd y gadwyn gyflenwi a sut i sicrhau y caiff cydraddoldeb ac amrywiaeth eu dangos drwy ein prosesau caffael a'u hadlewyrchu yn ein contractau. | Byddwn yn datblygu ein tudalen we ‘How to do business with the NMC’ er mwyn hysbysebu cyfleoedd i gynnig am gontractau.<br><br>Ein nod yw denu BBaCHau drwy byrth caffael fel:<br><br>• Contracts Finder<br>• Supply2Gov<br>• Tender Direct<br><br>Byddwn yn gweithio gyda staff er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried y canlynol: |

| | | |
|---|---|---|
| | | • y math o farchnad gyflenwi;<br><br>• proffil y darparwr;<br><br>• materion yn ymwneud â chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol er mwyn sicrhau nad yw ein cyflenwyr yn gwneud y canlynol:<br>o gweithredu'n anghyfreithlon neu'n ormesol neu<br>o trin eu gweithlu mewn ffordd annheg. |
| 9. Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn ein holl gyhoeddiadau a'n cydberthnasau â rhanddeiliaid. | **Cyhoeddiadau ysgrifenedig**<br>Rydym wedi ymateb i geisiadau am fformatau amgen o'n dogfennau. Er enghraifft, argraffwyd Rheolau a safonau Bydwragedd mewn braille ar gais.<br>Rydym wedi trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyhoeddi ein hadroddiadau. Mae hyn yn cynnwys:<br><br>• Adroddiad blynyddol 2012-2013.<br><br>• Adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth 2012-2013.<br><br>• Adroddiad monitro'r cynllun iaith Gymraeg 2011-2013.<br><br>Rydym hefyd wedi cyhoeddi dwy o'n taflenni yn Gymraeg:<br><br>• Gwybodaeth i dystion: Gwrandawiadau | Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am y fformatau amgen sydd ar gael ar ein gwefan.<br><br>Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau canlynol yn Gymraeg:<br><br>• Adroddiad blynyddol 2013-2014.<br><br>• Adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth 2013-2014.<br><br>• Adroddiad monitro'r cynllun iaith Gymraeg 2013-2014.<br><br>Byddwn yn cyfieithu dogfennau i'r Gymraeg ar gais. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Gwybodaeth i dystion: Ymchwiliad<br><br>**Nod Crisial Plain English**<br>Yr argraffiad diwygiedig o'r fersiwn Saesneg o'n canllawiau ar fynegi pryderon oedd ein cyhoeddiad cyntaf i ennill nod crisial gan y Plain English Campaign.[11]<br><br>**Ein gwefan**<br>Rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar gynnal safon hygyrchedd 'AA' ein gwefan. Mae'r safonau hyn yn cyfeirio at ba mor hygyrch yw gwefan i gynulleidfa eang. | Byddwn yn parhau i ennill nodau crisial gan y Plain English Campaign ar gyfer rhai o'n dogfennau Saesneg.<br><br>Fel rhan o'r broses o ail-lansio ein gwefan, byddwn yn parhau i gyfeirio at safonau 'AA' a byddwn yn gwella ein gwefan drwy wneud y canlynol:<br><br>• galluogi defnyddwyr i gynyddu maint y testun;<br><br>• helpu defnyddwyr i ddod o hyd i wybodaeth;<br><br>• adolygu tudalen y cynllun iaith Gymraeg ar y wefan. |

[11] Mae Plain English yn ffordd o ysgrifennu sy'n hyrwyddo testun hygyrch, clir, cywir a hawdd ei ddeall.